



Why worm ewes?

Fit and healthy adult ewes have a good immunity to most species of worms (the exception would be *Haemonchus contortus*, the Barbers Pole Worm). However, their immunity drops at times of stress – especially during lambing. This is usually the only time that adult sheep need to be treated for worms.

Although worm infestations at lambing can affect the performance of adult ewes, the main concern during the spring is pasture contamination. Parasitised ewes will shed large numbers of eggs onto pasture where the lambs will graze later in the season. Hence the main reason for worming ewes at lambing is to reduce pasture contamination.

Timing the treatments

Timing of the lambing treatment is crucial.

- The rise in egg output from the ewes can occur anywhere between 4 weeks before lambing to 6-8 weeks after lambing.
- Using faecal egg counts (FEC) can help determine the best time to treat ewes during the lambing period as FEC is a very accurate indicator of contamination.
- The timing of ewe treatments will also depend on practical limitations such as indoor / outdoor lambing, the availability of pasture post-lambing and the presence of *Haemonchus contortus*.
- Ewes should be treated depending on their age, condition score and FEC.
- **Discuss with your vet/advisor the approach that would be best for your farm.**

Not all ewes will suffer the same amount of stress at lambing. It is advisable to leave 10 – 20% of the least vulnerable ewes (e.g. fit and mature singles) untreated. FEC on different groups of ewes will help determine which ones need treating. Feeding increased level of protein will help lower egg counts in ewes around lambing time.



Many farms choose to worm ewes earlier in the winter (e.g. at housing). Worms present during the winter are likely to be at inhibited stages (these are picked up in the autumn and go into a dormant state until the spring). If wormers are given earlier then you need to ensure that the wormer is effective against inhibited stages of roundworms.

Don't forget about replacement ewe lambs or any store lambs in late autumn/winter

High worm burdens have been found in lambs in the middle of winter and is a sign of how parasites have adapted to the recent changes in our climate. FEC should be continually used on lamb groups throughout the winter to catch any unexpected worm burdens.

Check any stock that has been wintered away before it returns and treat if necessary so that worms are not brought back with them. If the land where they are wintered has had sheep from another farm grazing there within the last 2 years then all lambs returning should be quarantine treated to avoid bringing in resistant worms.

Always check that your wormer does work

For more information on worm control and Sustainable Control of Parasites in Sheep (SCOPS) please contact HCC on 01970 625050 or email info@hccmpw.org.uk.

The Red Meat Development Programme is managed by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect



Pam dilyngyru mamogiaid?

Mae gan famogiaid ffit ac iach imiwnedd da rhag y rhan fwyaf o rywogaethau o lyngyr (yr eithriad fyddai *Haemonchus contortus*, sef y llyngyren Polyn Barbwr). Ond dydy'r imiwnedd ddim cystal pan fyddan nhw dan straen – yn enwedig adeg wyna. Fel arfer, dyma'r unig adeg pan fo angen trin y defaid llawn dwf rhag llyngyr.

Er y gall heigiadau o lyngyr adeg wyna effeithio ar berfformiad y mamogiaid llawn dwf, y prif bryder yn ystod y gwanwyn yw tir pori wedi'i halogi. Bydd mamogiaid â pharasitiaid yn gollwng nifer fawr o wyau ar borfa lle bydd yr ŵyn yn pori'n ddiweddarach yn y tymor. Felly, y prif reswm dros dilyngyru mamogiaid adeg wyna yw gwneud y borfa'n llai halogedig.

Amseru'r triniaethau

Mae amseru'r driniaeth adeg wyna'n hollbwysig.

- Gall y cynnydd yn nifer yr wyau o'r mamogiaid ddigwydd unrhyw bryd rhwng 4 wythnos cyn wyna a 6-8 wythnos ar ôl wyna.
- Gall defnyddio cyfrifiadau wyau ysgarthol (FEC) helpu wrth benderfynu'r amser gorau i drin mamogiaid yn ystod y cyfnod wyna am fod FEC yn ffordd gywir iawn o ddangos halogiad.
- Bydd amseru rhoi triniaeth i'r mamogiaid yn dibynnu hefyd ar gyfyngiadau ymarferol megis wyna o dan do / yn yr awyr agored, argaeledd porfa ar ôl wyna a phresenoldeb *Haemonchus contortus*.
- Dylid trin mamogiaid yn unol â'u hoed, sgôr cyflwr a FEC.
- **Trafodwch y dull gorau ar gyfer eich fferm â'ch milfeddyg/ cynghorydd.**

Ni fydd yr holl famogiaid yn dioddef yr un maint o straen adeg wyna. Mae'n well gadael 10 – 20% o'r mamogiaid sydd lleiaf agored i niwed (e.e. mamogiaid ffit a llawn dwf ag un oen yr un) heb eu trin. Bydd cyfrif wyau ysgarthol mewn grwpiau gwahanol o famogiaid yn help wrth benderfynu pa rai sydd angen eu trin. Bydd rhoi bwyd â mwy o brotein yn help i ostwng nifer yr wyau mewn mamogiaid adeg wyna.



Mae llawer o ffermydd yn dewis dilyngyru mamogiaid yn gynharach yn y gaeaf (e.e. adeg eu rhoi dan do). Mae'r llyngyr sy'n bresennol yn ystod y gaeaf yn debygol o fod wedi'u codi yn yr hydref ac o fod yn gwsg tan y gwanwyn). Os rhoddir gwrthlyngryddion yn gynharach, rhaid i chi wneud yn siŵr fod y gwrthlyngrydd yn effeithiol rhag llyngyr main cwsg.

Cofiwch ŵyn benyw amnewid neu unrhyw ŵyn stôr ddiwedd yr hydref/ yn ystod y gaeaf

Cafwyd hyd i lwythi llyngyr trwm mewn ŵyn ganol gaeaf ac mae hyn yn arwydd o sut mae parasitiaid wedi addasu i'r newidiadau diweddar yn ein hinsawdd. Dylid defnyddio FEC yn barhaus ar grwpiau o ŵyn drwy gydol y gaeaf er mwyn dal unrhyw lwythi llyngyr annisgwyl.

Archwiliwch unrhyw anifeiliaid sydd wedi gaeafu oddi ar y fferm cyn iddyn nhw ddychwelyd, a rhowch driniaeth iddyn nhw os oes angen, fel nad ydyn nhw'n dod â llyngyr yn ôl gyda nhw. Os bu defaid o fferm arall yn pori yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar y tir lle bu'ch defaid chi dros y gaeaf, yna dylech roi' cwarantyn i'r holl ŵyn sy'n dychwelyd er mwyn osgoi cyflwyno llyngyr ymwrthol.

Gwnewch yn siŵr drwy'r amser fod eich gwrthlyngrydd yn gweithio

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â rheoli llyngyr ac am Rheolaeth Gynladwy o Barasitiaidmewn Defaid (SCOPS) cysylltwch â HCC ar 01970 625050 neu ebost: info@hccmpw.org.uk.

Rheolir y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswllt Ffermio